CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd

**Cymdeithas Bob Owen**

Tâl aelodaeth - £2 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.

**SWYDDOGION**

Llywydd:
Dr E.D. Jones

Cadeirydd:
D. Tecwyn Lloyd

Ysgrifennydd:
Richard H. Lewis,
Llys Afan, Penygarn,
Bow Street, Dyfed.
(Aberystwyth 828102)

Trysorydd a Threfnydd Busnes:
John Dilwyn Williams,
Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,
Pwllheli, Gwynedd.
(Pwllheli 613480)

Golygydd:
John Roberts Williams
18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon
Tel: Caernarfon 3593

Cyhoeddir Y Casglwr
gyda chymorth ariannol
Cyngor Celfyddydau Cymru

## YN EISIAU

*EDWARDS, Owen M.: Gwaith Ann Griffiths (Cyfres y Fil). Llanuwchllyn, 1905*
*ALLCHIN, A.M.: Ann Griffiths, (Writers of Wales). Caerdydd 1976*
*WILLIAMS, Daniel: Teithi Meddwl Ann Griffiths. Lerpwl, 1932*

*Nia Rhosier, 14 Kenilworth House, Castle Court, Heol-y-Porth, Caerdydd. CF1 1DJ Ffôn: Caerdydd 398309*

*AWEN Sir Ddinbych, Llyfrau'r Dryw, 1962*
*COFIANT y Diweddar Barchedig Daniel Jones, Caernarfon, ynghyda darluniad o hono fel Pregethwr.....Caernarfon: Argraffwyd dros y Cyhoeddwyr gan G. Parry, 1857*
*BRO (gol. Emyr Llywelyn) rhifynnau 1-3, 7,11,12 a 17*
*SGRECH (gol. Glyn Tomos) rhifynnau 16 a 17*
*SYLW (gol. Glyn Tomos) rhifyn 3*
*YR ADFERWR, unrhyw rifynnau cynnar.*

*Howard Huws, 26 Pen y Ffridd, Penrhoarnedd, Bangor, Gwynedd.*

Copi o EIFIONYDD (*Gresham*). Ei fawr angen gan wybod ei fod yn brin ac yn ddiau yn ddrud.
Gwenda Griffith, FFLIC, Adeiladau'r Gyfnewidfa, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd. CF1 6EA. Tel (0222) 488900.

## HEN DDARLUN

**DAETH darlun i'm meddiant yn ddiweddar ac fe hoffwn yn fawr wybod mwy amdano a thipyn o'i hanes os oes un o ddarllenwyr *Y Casglwr* yn gwybod rhywbeth o gwbl.**

**Y mae mewn ffrâm ac yn mesur rhyw ddwy droedfedd ar led a thair troedfedd o uchder. Ym mhob cornel y mae llun (yn mesur rhyw 6 modfedd sgwâr): Castell Caernarfon, Castell Conwy, Castell Caerdydd a Choleg Aberystwyth. Rhwng y ddau gastell ar ben y llun y mae dau fathodyn: Gorsedd y Beirdd yw un a'r Ddraig Goch yw'r llall gyda'r geiriau *Cas gŵr ni charo'r wlad a'i maco* o'i gwmpas.**

**Ar y gwaelod ceir y geiriau *Enwogion Cymru*. Wedyn ceir llun o 14 o ddynion sef: Principal John Rhys, Oxford; Principal Edwards, Cardiff; W Abraham, M.P.; Lloyd George, M.P.; O M Edwards, M.A.; Rev Roland Williams, Hwfa Môn; Thos Gee, Esq. Denbigh; Dr Parry, America; T E Ellis, M.P.; David Randell, M.P.; Rev John Evans, Eglwysbach; Bishop of Bangor; Principal E Herber Evans, D.D. Bangor; Principal T C Edwards, D.D. Bala. (Dyna'r union ddisgrifiad o bob un).**

**Yn y ddwy gornel isaf ceir y geiriau: *With Compliments from W Thomas, Ruthin.***

**Pa bryd y cyhoeddwyd y llun? (Mae'n fwy fel poster efallai . . .) Ar ba achlysur? A faint ohonynt sydd ar gael drwy Gymru? Mae yna rywbeth yn ddeniadol dros ben ynddo.**

**Hafina Clwyd**
**Rhuthun**

## BLOC PWY?




PRYNAIS yn ddiweddar (mewn siop hen bethau yng Nghaerdydd) floc argraffu sydd yn dipyn o ddirgelwch imi. Amgaeaf argraffiad ohono.

Fel brodor o Drefforest, hoffwn wybod beth yn union y mae'r llythrennau CYC yn eu cynrychioli. Cymeraf mai tŵr un o ffenestri Francis Crawshay, un o'r meistri haearn lleol, yw'r symbol yn y canol. Mae'r sillafu yn yr enw Trefforest yn awgrymu mai rhywbeth Cymraeg sydd yma. Ond ni fedraf ddod o hyd i unrhyw un sy'n gwybod am y bloc.

A gaf i apelio am wybodaeth trwy **Y Casglwr** os gwelwch yn dda?

Meic Stephens
Caerdydd

# At y Golygydd

## CARDIAU POST

*NEWYDD ymaelodi â'r Gymdeithas — a chael copi o rifyn Nadolig '86 o'r "Casglwr", a darllen am erthygl 'Hela'r Cardiau Post' gan D Guto yn Rhifyn 28.*

*'Roedd yna 'Miss Thomas' yn y Llythyrdy, Llangaffo tua'r cyfnod 1900 ymlaen, ac yn gasglydd brwd o gardiau post. Gwerthwyd rhan, onid y cyfan, o'i chasgliad gan yr arwerthwyr Morgan Evans, Gaerwen, yn 1986 — ni chofiaf y dyddiad, ond mae'n debyg fod Mr Roger Jones, yr arwerthwr yn gwybod. Prynais ychydig o un gyfrol gan Mrs S Richards, Fanfayre, Rhosneigr, Ynys Môn — Saesnes — ac fe welaf fod y rhai hyn yn dyddio cyn mis Awst, 1904. Mae gen i rai eraill cyn Awst, 1904, ac os yw rhywun eisiau gwybodaeth, gall roi tinc ar y ffôn rhyw ben wythnos neu alw yma.*

*'Rwy'n ceisio rhoi llyfr neu gatalog wrth ei gilydd ar ddelwau a llestri gyda phersonau'n portreadu'r wisg Gymreig. Buaswn yn dra diolchgar am wybodaeth am unrhyw ddarn — ar werth neu i'w cofnodi — ar y wisg Gymreig, e.e.gwaith ymchwil gan Sefydliad y Merched tu cefn i'w harddangosfa o wahanol wisgoedd Cymreig; llenyddiaeth megis llyfrynnau gwerthwyr printiau: ac felly ymlaen.*

*Yn gywir*
*John Llewelyn Williams*
*Penybont*
*Llanfugail,*
*Caergybi.*
*(Fali: 740760)*

## COFIANT GEORGE FOULKES

*RYDYM yn ceisio olrhain hanes yr achos ym Methesda, Yr Wyddgrug. Gwelsom gyfeiriad at gofiant i un Geroge Ffoulkes, oedd ymysg y ddiadell gynnar, a ysgrifennwyd gan ei fab oddeutu 1840, ond methwyd â dod o hyd iddo. A ŵyr rhywun rywbeth am y cofiant hwnnw. Buaswn yn falch o glywed.*

*Rhiain Phillips,*
*Penyberth,*
*Bryn Awelon,*
*Yr Wyddgrug.*

## ENWAU LLEOEDD

CEFAIS hwyl anghyffredin o ddarllen erthygl Tomos Roberts yn rhifyn Awst (rhif 29) o'r *Casglwr* ar 'Chwedloniaeth egluro enwau lleoedd'. Rhyfedd ac ofnadwy yn wir yw dychymyg y werinos.

Gallaf chwanegu un enghraifft o'm hardal enedigol fy hunan, sef Llawrybetws. Yno, ar ochr ddeheuol y dyffryn, mae esgair a elwir yn Fynydd Mynyllod. Bûm yn holi Syr Ifor un tro beth oedd ystyr yr enw, ond addefai nas gwyddai.

Ond i un o drigolion yr ardal, William Owen, Merllyn Gwyn, (gŵr o sir Fôn yn wreiddiol), nid oedd dim anhawster. Lawer canrif yn ôl, meddai ef, bu brwydr fawr rhwng yr 'hen Gymry' a rhyw elynion amhenodol. Yr 'hen Gymry' a orfu trwy feddiannu'r mynydd a byth wedyn fe'i galwyd yn 'Mynydd a Enillwyd', a hynny, yn ystod treigl y canrifoedd, yn mynd yn 'Mynydd Mynyllod'. Mor syml â hyn'na!

D Tecwyn Lloyd

## PLANHIGION ERYRI

AETH erthygl Dewi Jones (Nantlle) â fi'n ôl i 1935 pan welais y gwlithys bach coch gwych yna gynta erioed ar ochr yr Wyddfa - y sundew - sydd wedi rhoi llawer gwefr â ffrind i mi er hynny.

Saesnes o Lundain a ddysgodd i mi sut i werthfawrogi planhigion Eryri; aem allan i grwydro pan fyddai siop fy nhad ar gau. Ddeallais i erioed sut y daeth fy ffrind mor wybodus, a minnau, er fy ngeni yn Eryri erioed wedi *gweld* ei phrydferthwch.

Yn araf dois i adnabod yr *Asphodel* (Llafn y Bladur), y *Saxifrage* (Gwreiddeiriog), y *Butterwort* (Tafod y Gors), y *Musk* (Mwsg), y *Marigold* (Rhuddas), y *Bog Moss* (Migwyn), *Forget me not* (Glas y Gors), *Mountain Flax* (Llin y Mnnydd), *Ling* (Grug Ysgub).

Hyd heddiw bydd y mwsog a'r blodau yn fy ngwefreiddio. Sylweddolais, wrth fynd i fyny'r Wyddfa yn y trên beth amser yn ôl mai ar *lawr* ymysg y mwsog y crwydrai fy llygaid ac nid i fyny i'r copäon!

Tua chwarter canrif yn ôl gwelais bedwar myfyriwr ieuanc wedi eu gwefreiddio pan welsant ardd fach yn ffenestr fy siop yn llawn o'r blodau anghyffredin - daethant i Eryri i astudio planhigion yr ardal o Goleg Aberystwyth. Ac mae rhai ohonynt yn dal i ddod yma am sgwrs!

Dilys Baylis.
Llanberis

## AR WERTH

*Straeon Glasynys (Gol.) Saunders Lewis. 1943*
*Orinda. R.T. Jenkins. 1943*
*Ffynhonnau Elim. Idris Thomas, pseud. R.T. Jenkins. 1945*
*Penillion telyn (Llyfrau'r Ford Gron, Rhif 1)*
*Can Wales Unite? Wyn Griffith*
*Wales - Know thyself. Walter Dowding*

*Mrs Mary Ellis, 4 Laura Place, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: Aberystwyth 617171.*